

CYNLLUN PRENTISIAETHAU PERFFORMIO HYSBYSIAD CLYWELIADAU



Mae Earthfall yn bwriadu penodi tri phrentis dawn ym mis Medi / Hydref 2014 ar gyfer cyfnod ymarfer a datblygu cynhyrchiad newydd y cwmni, 'Stories from a Crowded Room'.

Rhaid i'r prentisiad fod yn fyfyrwr sydd ar fin neu newydd raddio (wedi cwblhau eu hastudiaethau ers mis Mehefin 2013). Dylai ymgeiswyr fod yn unigolion a fydd yn elwa ar y profiad o weithio gyda chwmni proffesiynol yn ystod y broses greadigol o greu gwaith newydd.



Bydd y prentisiaid yn gweithio ar y cyd â'r cwmni ac yn cyfrannu'n artistig ac yn uniongyrchol i'r gwaith, gan ddatblygu eu techneg drwy ymwneud ag ethos a methodolegau Earthfall.

Bydd yn rhaid i'r prentisiaid fod ar gael ar gyfer y cyfnod ymarfer cyflawn o bedair wythnos, a bydd yn rhaid iddynt fynychu holl ddsbarthiadau ac ymarferion y cwmni yn ystod y broses hon. Bydd yna gyfle i dderbyn adborth gan y tîm artistig, a photensial ar gyfer cyfranogiad pellach gyda'r cwmni. Cynhelir y broses ymarfer yng Nghaerdydd o ddydd Llun 8 Medi tan ddydd Sadwrn, 4 Hydref 2014.

Mae hon yn swydd â thâl o £300 yr wythnos ac fe fyddai'n addas ar gyfer dawnswyr cyfoes sydd yn awyddus i ddatblygu eu hyfforddiant ac ennill profiad proffesiynol.

Cynhelir clyweliadau yng Nghaerdydd ar ddydd Sadwrn 28 Mehefin. Er mwyn gwneud cais, dylech anfon: curriculum vitae, llythyr o eglurhad, llun ohonoch eich hun, rîl arddangos neu glipiau ohonoch chi'n perfformio a manylion dau ganolwr at audition@earthfall.org.uk erbyn dydd Gwener 30 Mai, 12:00, gan nodi 'Prentisiaethau' ym mhwnn yr e-bost. Gweler y 'Canllawiau ar gyfer gwneud Cais' am fanylion pellach.

Cefnogir y prosiect gan y Loteri Genedlaethol trwy gyfrwng Gyngor Celfyddydau Cymru. Mae Earthfall yn gwmni a gymeradwywyd gan EQUITY / ITC ac yn aelod o Dance UK. I gael mwy o wybodaeth am Earthfall, ewch i: www.earthfall.org.uk

I weld ein newyddion diweddaraf, dewch i'n gweld ni ar  (Earthfall), neu dilynwch ni ar , @Earthfall

